| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **18 Ebrill 2024** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol / Helen Vaughan-Evans – Pennaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Helen Vaughan-Evans – Pennaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Heidi Barton-Price, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad** |
| **Teitl** | **Adolygiad y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol, Chwefror 2024** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Diweddariad ar adolygiad Chwefror 2024 o'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol a Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor, yn cynnwys newidiadau i ba mor aml rydym yn adrodd ar risg.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth am yr adolygiad diweddaraf o'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol a Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor.

2.2 Rydym hefyd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad am ein dull newydd o adrodd ar risg, sy'n ymateb i gais gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar y diwygiadau i'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

3.2 Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar y diwygiadau i Ddatganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor, fel y nodir yn 4.7 i 4.8 isod, ac Atodiad 3.

## 4 Manylion yr adroddiad

4.1 Yr Uwch Dîm Arweiniol, ynghyd â'r Cabinet, sy'n datblygu ac yn berchen ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol. Caiff ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn friffio'r Cabinet. Ar ôl pob adolygiad, mae'r gofrestr wedi'i diweddaru wedyn yn cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Medi 2023. Mae'r papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad y tro diwethaf (30 Tachwedd 2023) ar gael ar-lein.

4.2 Defnyddiwyd Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor yn y trafodaethau a gafwyd gyda pherchnogion risgiau, ac mae ein lefel risg (yn seiliedig ar y sgôr) wedi'i dadansoddi o fewn y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol (Atodiad 2).

4.3 Mae gan y Cyngor 13 o Risgiau Corfforaethol ar y Gofrestr ar hyn o bryd. Mae crynodebau o'r adolygiad i'w gweld ar ddechrau pob risg yn Atodiad 2. Nid oes unrhyw risgiau wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr yn yr adolygiad hwn, nac unrhyw rai newydd wedi'u hychwanegu.

4.4 Er bod pob risg wedi'i hadolygu, nid oes unrhyw newidiadau arwyddocaol wedi'u gwneud yn ystod adolygiad Chwefror 2024, ac nid yw sgôr risg weddilliol unrhyw un o'r 13 Risg Gorfforaethol wedi newid.

4.5 Dylai'r Pwyllgor Craffu Perfformiad fod wedi'i sicrhau bod y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn defnyddio dull monitro rhagweithiol ar gyfer Risgiau Corfforaethol, a bod golwg fanwl iawn ar risgiau 01, 31, 34 a 48 wedi'i threfnu'n chwarterol yng Nghynllun Gwaith y Tîm. Yn allweddol, dylai'r Pwyllgor hefyd fod wedi'i sicrhau bod proses barhaus a manwl ar gyfer risgiau ariannol i sicrhau bod y risgiau hynny'n cael eu monitro drwy'r amser yn rhan o drafodaethau cyffredinol am y gyllideb.

**Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg**

4.6 Ar hyn o bryd, mae saith risg – 01, 21, 34, 45, 50, 51 a 52 (54%) – yn anghyson â Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor (Atodiad 3). Fodd bynnag, mae hynny i'w ddisgwyl gan fod y gofrestr yn cynnwys risgiau mwyaf difrifol y Cyngor.

4.7 Roedd yn amserol i ni edrych eto ar Ddatganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor (Atodiad 3) yn yr adolygiad hwn, a adolygwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2022. Dylai'r datganiad adlewyrchu ein parodrwydd heddiw, lle mae costau cynyddol a rhagolygon economaidd ansicr yn heriau i ni wrth ddarparu gwasanaethau a phrosiectau, ac yn bygwth canlyniadau cyffredin o ran annibyniaeth a chadernid unigolion a chymunedau.

4.8 Yn dilyn trafodaethau'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Uwch Dîm Arweiniol ac yn sesiwn friffio'r Cabinet, darparwyd yr adborth canlynol o ran priodoldeb y Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg cyfredol:

a) I adlewyrchu'r sefyllfa ariannol ar hyn o bryd, byddai bellach yn briodol diwygio parodrwydd 'agored' y Cyngor i dderbyn risg mewn perthynas ag ariannu prosiectau i '**ofalus**'.

b) Yn dilyn trafodaeth am ein parodrwydd 'gofalus' i dderbyn risg o ran cydymffurfio a rheoleiddio (heb gynnwys diogelu), cytunwyd bod hyn yn dal i fod yn briodol ar gyfer busnes y Cyngor ac y dylai barhau fel 'gofalus'. Fodd bynnag, cytunwyd ar newid y disgrifiad i 'risgiau am gadw at y gyfraith, rheoliadau a chanllawiau **statudol**'.

c) Byddai adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal ar y Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg.

**Adrodd ar Risg**

4.9 Rydym wedi cael ein herio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ddiweddar ynglŷn ag amlder adolygu Risgiau Corfforaethol, yn enwedig tra mae'r sefyllfa ariannol yn newid yn gyflym fel mae ar hyn o bryd. Rydym wedi ystyried eu cais am adrodd ar risgiau 'yn fwy aml' drwy gydol y flwyddyn, ac ystyried pwysau o ran gallu i wneud hynny o fewn y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, ac rydym wedi cytuno

ar gyfaddawd gyda pherchnogion risgiau sy’n helpu i fodloni’r ddau bwynt (gweler Atodiad 4).

4.10 Y cynnig y cytunwyd arno yw adolygiadau chwarterol ychydig yn llai manwl gyda pherchnogion risgiau (yn amrywio rhwng e-bost ac ar y rhaglen drafod), sydd wedyn (er gwybodaeth yn unig) yn gallu bwydo i mewn i gyfarfodydd Llywodraethu ac Archwilio drwy gydol y flwyddyn (ar wahân i fis Tachwedd pan mae trafodaeth fel arfer wedi’i threfnu). Y gobaith yw y bydd cadw’r gofrestr yn fwy cyfredol yn galluogi gwasgaru’r baich ar y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, yn hytrach na’r llwyth gwaith enfawr sydd gennym ar hyn o bryd gyda’r adolygiadau mwy ym mis Chwefror a Medi.

4.11 Sylwer bod y dull hwn yn rhywbeth y byddwn yn ei dreialu ac yn edrych eto arno ddiwedd 2024 i 2025.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Diben y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yw amlygu digwyddiadau posib’ yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu’r Cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae’r camau rheoli a gweithredu dynodedig felly yn hanfodol i gyflawni Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae costau datblygu, monitro ac adolygu’r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol wedi’u cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae dogfennau’r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn nodi risgiau a’r camau lliniaru. Nid yw’r broses o ddatblygu ac adolygu’r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o’r nodau lles. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cynnal asesiad o effaith ar les ar gyfer unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy’n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Cyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad, cynhaliwyd trafodaethau unigol gyda Pherchnogion Risgiau'r Tîm Gweithredol Corfforaethol (y Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwyr Corfforaethol) yn ogystal â chael mewnbwn gan Benaethiaid Gwasanaeth perthnasol a swyddogion sy'n arwain ar gamau pellach er enghraifft.

8.2 Cyflwynwyd adroddiad i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol i gytuno arno a/neu wneud newidiadau eraill ar 11 Mawrth; yr Uwch Dîm Arweiniol ar 21 Mawrth; a sesiwn friffio'r Cabinet ar 8 Ebrill 2024. Ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad, bydd y gofrestr yn cael ei rhannu er gwybodaeth gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi wrth ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau uwch swyddogion ac yn nodi bod rhaid i weithdrefnau a phrosesau clir fod yn eu lle i reoli risg yn effeithiol.

11.3. Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau'r Pwyllgorau Craffu mewn perthynas ag edrych ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd yn gysylltiedig â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor, un ai gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor.